# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

Cofnodion: Hydref 2018

Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
12 hanner dydd – 1.15pm, Dydd Mawrth 9 Hydref
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc: Gofal ysbyty i bobl sy'n byw gyda dementia

## Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Rhun ap Iorwerth AC; Heledd Roberts (ar ran Rhun ap Iorwerth AC); Craig Lawton (ar ran AC Suzy Davies); Dai Lloyd AC

Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru - ysgrifenyddiaeth y grŵp trawsbleidiol); Sue Phelps, Huw Owen, Natalie Owen, Rhys Edwards (Cymdeithas Alzheimer Cymru); Janet Bevan (Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf); Catrin Edwards (Hospice UK); Daisy Cole (swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru); Karyn Davies (Prifysgol De Cymru); Ceri Smith (Alzheimer's Research UK); Michael Banner (Marie Curie); Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain); Michaela Morris (Iechyd Cyhoeddus Cymru); Dr Jane Harden, Dr Katie Featherstone, Ed Bridges (Prifysgol Caerdydd), Sam Bolam (Dementia Matters Powys); Chineze Ivenso (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion); Suzanne Duval (Diverse Cymru); Oliver John (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion)

Peggy Martin, Ceri Higgins, Nigel Hullah, Linda Willis (pobl yr effeithir arnynt gan ddementia / gwirfoddolwyr / Gweithgor Dementia'r 3 Gwlad)

## Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- Croesawodd **Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- Cafodd **Lynne Neagle AC** ei hailethol yn Gadeirydd
- Cafodd **Sophie Douglas** ei hailethol fel yr ysgrifenyddiaeth (ar ran Cymdeithas Alzheimer Cymru)

## Adborth o'r cyfarfod blaenorol

- Gohebiaeth rhwng **Lynne Neagle AC** ac **Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg** - cydnabod gwerth gwaith rhyng-genhedlaeth rhwng plant ysgol a phobl sy'n byw gyda dementia
- Atebion i gwestiynau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan **Lynne Neagle AC** i **Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** - WAQ76901, WAQ76900, WAQ76899 - ynghylch cyllid sydd ynghlwm â'r Cynllun Gweithredu Dementia.

## Adborth o gyfarfod y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia

- Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, gellir dod o hyd i gofnodion yma

- **Camau Gweithredu:** Lynne Neagle i wahodd Jo Maddaford a/neu Sally Thompson (Llywodraeth Cymru) i gyfarfod y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid sydd ynghlwm â'r Cynllun Gweithredu Dementia

## Cyflwyniad gan Dr Katie Featherstone

Rhoddodd Dr Featherstone gyflwyniad am ei gwaith ymchwil ar ofal bob dydd pobl sy'n byw gyda dementia a dderbynnir i wardiau ysbyty acíwt. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar 'wrthod a gwrthwynebu gofal'.

**Roedd y canfyddiadau yn cynnwys y canlynol:**

- Roedd yr hyn a elwir yn 'wrthwynebu' fel arfer yn ymateb i sut mae gofal yn cael ei drefnu (ei drefnoli, ei rannu'n adrannau, ei ddarparu gan lawer o wahanol bobl) a/neu'n ymateb i'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu
- Caiff staff eu dal mewn 'trap sefydliadol' sy'n canolbwyntio ar amserlenni, lleihau risg ac effeithlonrwydd

**Roedd yr argymhellion yn cynnwys y canlynol:**

- Ymyriadau ar sail tystiolaeth – mae angen gwaith ymchwil cadarn ar ofal i bobl sy'n byw gyda dementia pan gânt eu derbyn i wardiau ysbyty acíwt
- Codi ymwybyddiaeth
- Hyfforddiant ar gyfer pawb

**I gael rhagor o wybodaeth:**
storiesofdementia.com/
@storiesofdementia
@Drkfeatherstone

## Trafodaeth

- Cododd **Nigel Hullah** bryderon bod safonau Amddifadu Rhyddid wedi dod yn gymorth systematig ar gyfer rheoli pobl, sy'n peri pryder mawr o ystyried deddfwriaeth hawliau dynol a chydraddoldeb
- Pwysleisiodd **Daisy Cole** bwysigrwydd hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, a gofynnodd sut y gallwn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn rhan o'r cynllun
- Gofynnodd **Suzanne Duval** a oedd unrhyw waith ymchwil yn darganfod profiad cleifion sy'n siaradwyr Saesneg ailiaith. Esboniodd **Dr Katie Featherstone** y bydd prosiect ymchwil newydd yn edrych i mewn i'r pwnc hwnnw
- Tynnodd **Sam Bolam** sylw at brosiect bach a gafodd effaith fawr ym Mhowys. Ategodd **Dr Katie Featherstone** fod yn rhaid i ymyriadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a dyna pam bod angen ymchwil bellach
- Gofynnodd **Dr Jane Harden** sut ydym yn defnyddio diwylliant staff presennol i sicrhau'r newidiadau rydym eu heisiau, er enghraifft drwy glustnodi 5-10 munud er mwyn i nyrsys eistedd gyda chleifion
- Awgrymodd **Dr Rosslyn Offord** nad yw hyfforddiant yn aml yn 'glynu', ac mae angen i ni fynd i'r afael â newid sylweddol mewn diwylliant, gan symud i ffwrdd o fod yn wrth-risg a blaenoriaethu atal cwympo.

- Gofynnodd **Michaela Morris** a yw'n bosibl gweld amserlen tasgau ar y ward, er mwyn gweld sut mae'n cyfateb â'r lefelau Staffio Diogel. Atebodd **Dr Katie Featherstone** drwy ddweud eu bod yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad llawn sydd ar gael ar-lein (gweler uchod)
- Rhannodd **Ceri Higgins** brofiad a gafodd yn yr ysbyty gyda'i thad, a nododd ei fod yn ymwneud ag agwedd a synhwyrau dynol sylfaenol, a'i bod yn cymryd yr un faint o amser i ddarparu gofal gwael ag y mae i ddarparu gofal da - ac nid yw cael platiau coch yn gwneud ward ysbyty yn un sy’n gyfeillgar i ddementia mewn gwirionedd
- Rhannodd **Linda Willis** brofiad personol o fod yn yr ysbyty, ac eglurodd y dylai llawer o ofal sydd ei angen fod yn synnwyr cyffredin, drwy ofyn 'a oes angen help arnoch gyda hyn?' yn hytrach na gadael rhywbeth ar ben gwely ysbyty'r unigolyn
- Gwnaeth **Dr Katie Featherstone** sylw ar ddiwylliant a welodd, gyda staff yn awgrymu 'ni ddylai pobl â dementia fod ar y ward hon' / 'dylai pobl â dementia fod mewn gofal arbenigol' / 'mae gormod o bobl â dementia ar y ward hon' - gan ddangos diffyg dealltwriaeth
- Gofynnodd **Michaela Morris** sut roedd wardiau wedi ymateb i ganfyddiadau'r gwaith ymchwil. Soniodd **Dr Katie Featherstone** am 'ddiymadferthwch wedi’i ddysgu' ymhlith staff, sy'n teimlo nad ydynt yn gallu gwneud unrhyw beth ynghylch y problemau

## Ymchwiliad i ofal ysbyty

- Amlinellodd **Sophie Douglas** y cynllun ar gyfer yr ymchwiliad i ofal ysbyty i bobl sy'n byw gyda dementia - cafodd galwad am dystiolaeth ei ddosbarthu gyda’r cofnodion.
- Gellir dod o hyd i ddolen at yr arolwg yn Gymraeg neu’n Saesneg yma

## Unrhyw fater arall

- Tynnodd **Suzanne Duval** sylw at waith gan Diverse Cymru wrth godi ymwybyddiaeth o brofiadau cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o ddementia - cafodd poster ei ddosbarthu gyda’r cofnodion

## Dyddiadau’r cyfarfodydd nesaf

- Dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
- Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
- Dydd Mawrth 11 Mehefin 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead